# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Hydref 2014** |
| Amser: | **09. – 10.30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/c052c569-184e-4596-8551-8d5c9bd55d85?autostart=True

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Mike Hedges (yn lle Joyce Watson)** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 2.1 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at staff Comisiwn y Cynulliad i gysylltu â Mr James yn uniongyrchol i ddilyn unrhyw faterion heb eu datrys mewn cysylltiad â natur a rôl y Grwpiau Trawsbleidiol.

### 2.2P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

- Gan dynnu ei sylw at farn y deisebydd ac yn enwedig pa mor gymharol hawdd y gallai fod i addasu'r terfyn cyflymder yn ôl i 30 mya; a
- Gofyn iddi i ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlen, ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb a nodwyd yn ei llythyr dyddiedig 7 Hydref 2014.

### 2.3P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:
  - Yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei datganiad ysgrifenedig a sylwadau'r deisebydd;
  - Yn gofyn am ragor o wybodaeth am ei pharatoadau cyn adnewyddu'r fasnachfraint sy'n ddyledus yn 2018, gan gynnwys sut y bydd yn casglu a choladu gwybodaeth a dderbyniwyd am sylwadau a fynegwyd yn ymwneud â darparu gwasanaethau rheilffyrdd; a
- thynnu sylw'r deisebydd at y tendr arfaethedig.

### 2.4P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

- Yn gofyn am ei sylwadau ar yr ohebiaeth bellach a dderbyniwyd a gofyn ei fod yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth o'r ymgynghoriad yn Lloegr;
- Yn gofyn iddo amlinellu'r rhesymau dros beidio â chynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd; a
- Chyfleu barn y Pwyllgor bod hwn yn faes lle dylai Cymru fod yn rhagweithiol ac y byddai'n anffodus pe byddai Cymru yn llusgo y tu ôl i Loegr o ran hygyrchedd gwybodaeth am bresenoldeb a rheoli asbestos mewn adeiladau ysgol.

**2.5P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y mater a godwyd yn y ddeiseb hon a deiseb sydd wrthi'n casglu llofnodion - Sicrhau bod ysgolion yn ymarfer eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb ymyrraeth neu ragfarn - ar eu Blaenraglen Waith;
- Estyn i ofyn am eglurhad ar sut caiff presenoldeb ei ystyried o fewn y gyfundrefn arolygu;
- Pob Awdurdod Lleol yn gofyn i bob un nodi sut y maent yn dehongli'r canllawiau ar bresenoldeb ysgol; ac
- Y Comisiynydd Plant i ofyn am ragor o wybodaeth am natur y pryderon a nodwyd gyda'i Wasanaeth Ymchwilio a Chynghori.

**2.6P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

• Ysgrifennu at y Gweinidog newydd sy'n gyfrifol am y maes hwn i gadarnhau a yw yn dal i fod yn ymrwymedig i'r dull a'r ymrwymiadau a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a sut caiff y polisi ei ddatblygu tu hwnt i oes y Cynllun Gweithredu ar hyn o bryd a ledled Cymru; a

• Gofyn am adroddiad cynnydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn unol â chais gan y deisebwyr.

**2.7P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebwyr.

**2.8P-04-527 Ymgyrch i gael Cronfa Cyffuriau Canser Arbennig yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; ac
- Ysgrifennu eto at Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gofyn am yr ymateb sydd heb ddod ac yn mynegi pryder am eu diffyg ymateb i lythyrau gan y Pwyllgor.

## 2.9P-04-553 Ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thechnolegau diwifr a ffonau symudol yng Nghymru, gan gynnwys yr holl ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn iddo ddarparu tystiolaeth gryno a chadarn a adolygir gan gymheiriaid er mwyn dangos yr angen am ymchwiliad; ac
- Unwaith y bydd ymateb y deisebydd wedi dod i law, ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am ei farn am y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan OFCOM ac a yw Canolfan Iechyd y Cyhoedd Lloegr ar Beryglon Ymbelydrol, Cemegol ac Amgylcheddol (PHE-CRCE) yn ystyried tystiolaeth o Gymru o ran rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru.

## 2.10 P-04-539 Achub y Gyfnewidfa Lo

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- arweinydd Cyngor Caerdydd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa a gofyn am ragor o wybodaeth am y diddymiad os yw ar gael, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor drefnu ymweliad â'r adeilad;
- y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn gofyn beth yw rôl Llywodraeth Cymru yng ngoleuni diddymiad y cwmni daliannol; a
- Stephen Doughty AS, gan anfon copi at Vaughan Gething AC, i dynnu ei sylw at y ddeiseb a gofyn am y diweddaraf am ei ymgyrch.

## 2.11 P-04-422 Ffracio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol newydd yn gofyn am ei ymateb i ddogfen y deisebydd a'i farn ar y 'ddeiseb' gysylltiedig a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog sydd yn ôl y sôn wedi casglu 90,000 o lofnodion; ac
- Anfon y wybodaeth a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru i Gyfoeth Naturiol Cymru (NRW), gan dynnu eu sylw'n arbennig at y sylwadau ar dudalen 2 am y diffyg arweiniad a ddarperir gan NRW.

## 2.12 P-04-524 Rheolaeth Gynllunio a'r Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd; ac

- Ysgrifennu eto at Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn am ymateb i ohebiaeth gynharach.

### 2.13 P-04-536 Rhoi'r Gorau i Ffatrïoedd Ffermio Gwartheg Godro yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- Ofyn am farn y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar sylwadau pellach y deisebydd a gofyn iddo egluro pam nad yw'n briodol darllen canfyddiad a chasgliadau o astudiaeth PCIFAP yn yr Unol Daleithiau ac i ddarparu tystiolaeth bellach ar ei farn nad yw ffermydd mwy yn effeithio ar hyfywedd ffermydd llai; ac
- Ysgrifennu eto at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ofyn a allent ystyried edrych ar y materion hyn fel rhan o'u blaenraglen waith.

### 2.14 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchlu Tlodi a fyddai ei swyddogion, sydd â dyddiaduron llai prysur o bosibl, yn barod i gyfarfod â'r deisebwyr yn unol â'r cais.

### 2.15 P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i drefnu sesiwn dystiolaeth yn unol â chais y deisebwyr.